

Gwybodaeth i Gleifion



Hysbysrwydd 26 Mai 2005

Deall Cyngor yr NPSA

Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) yn helpu'r GIG i ddarparu gofal iechyd diogel i bawb. Gwybodaeth yw hon am gyngor yr NPSA i bobl sydd ag alergedd yn gysylltiedig â latecs*. Er bod yr wybodaeth hon wedi cael ei hysgrifennu ar gyfer pobl sydd ag alergedd o'r fath, gall hefyd fod yn ddefnyddiol i'w teuluoedd ac i grwpiau cleifion.

Amddiffyn pobl sydd ag alergedd yn gysylltiedig â latecs

Beth yw latecs?

Math o rwber yw latecs. Caiff ei wneud allan o nodd coed a chemegolion. Defnyddir latecs mewn offer meddygol megis menig, stethosgopau, gorchuddion clwyfau, rhwymynnau ac mewn tiwbiau a ddefnyddir i roi hylifau i mewn i'ch corff. Mae'n rwber gwydn iawn, hyd yn oed ar ôl ei ymestyn nes ei fod yn denau.

Beth am alergedd i latecs?

Os oes gennych alergedd i'r cemegolion a ddefnyddir pan fo offer meddygol yn cael ei lunio allan o latecs, mae'n bosibl y cewch frech gennog, goch rai oriau ar ôl i chi fod mewn cysylltiad â latecs. Dermatitis yw'r enw a roddir ar hwn gan feddygon. Gall eich croen fod yn cosi ychydig, neu gall deimlo'n ddolurus ac yn galed fel lledr. Os oes gennych alergedd â'r latecs ei hyn, gall symptomau gychwyn yn gyflym iawn (o fewn 30 munud) a gallant fod yn ddifrifol. Gallwch gael marciau coch, brith yn codi ar eich croen. Yr enw ar hwn yw llosg danadl. Mae'n bosibl hefyd i chi gael asthma, trwyn yn rhedeg a llygaid dolurus. Mewn achosion prin, gall pobl gael problemau anadlu a bydd eu pwysau gwaed yn syrthio. Yr enw ar hyn yw anaffylgisis, a gall beryglu bywyd.

Pwy sy'n dioddef alergedd i latecs?

Mae'n bosibl na fydd adwaith alergedd yn digwydd y tro cyntaf y byddwch yn dod i gysylltiad â latecs. Er y gall unrhyw un ddatblygu alergedd, mae'n fwy cyffredin mewn pobl sy'n dod i gysylltiad â latecs yn aml. Er enghraifft, rydych yn fwy tebygol o ddatblygu alergedd i latecs os cewch lawer o driniaethau llawfeddygol.

Amddiffyn pobl

Mae'r NPSA wedi rhoi cyngor i helpu'r GIG wneud yn siŵr nad yw pobl yn dod i gysylltiad â latecs os oes ganddynt alergedd sy'n gysylltiedig ag ef. Efallai bod eich ysbyty neu'ch syrjeri eisoes yn gwneud y pethau hyn:

- Dylai pawb yn eich tîm gofal iechyd wybod am alergedd i latecs
- Dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd eich holi i weld oes gennych chi unrhyw alergeddau cyn i chi gael profion neu driniaeth
- Os oes gennych chi alergedd yn gysylltiedig â latecs, dylai'ch tîm gofal iechyd ddefnyddio offer a chynnyrch heb latecs bob amser. Yn gyffredinol, mae disgwyl i weithwyr iechyd proffesiynol ddilyn cyngor gan yr NPSA.

*Rydym yn defnyddio'r termau alergedd yn gysylltiedig â latecs, alergedd i latecs a sensiteiddiad i latecs i gynnwys yr adweithiau alergedd a achosir gan olion cemegolion a ddefnyddir i wneud cynnyrch latecs a'r adweithiau alergedd a achosir gan y proteinau mewn latecs rwber naturiol ei hun.



Mae'r NPSA hefyd yn annog cwmnïau sy'n gwneud offer meddygol i osod arwyddion amlwg ar gynnyrch sy'n cynnwys latecs. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i weithwyr iechyd proffesiynol wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio offer heb latecs ynddynt.

Os nad ydych yn credu eich bod yn dioddef alergedd i latecs, mae'n fwy diogel weithiau i'ch tîm gofal iechyd ddefnyddio latecs yn hytrach na chynnyrch heb latecs ynddynt. Er enghraifft, mae menig latecs yn deneuach ac yn gryfach na menig heb latecs a byddant yn atal heintiadau rhag trosglwyddo rhyngoch chi a'ch meddyg neu'ch nyrs.

Sut y gallwch chi helpu

Os ydych chi'n gwybod eich bod yn dioddef alergedd i latecs, dylech ddweud wrth yr holl staff gofal iechyd sy'n gofalu amdanoch, yn cynnwys meddygon, deintyddion, staff ambiwlans a nyrsys. Dylech ddweud wrthynt hefyd am y math o adweithiau yr ydych wedi eu cael. Gallant wneud yn siŵr na fyddwch yn dod i gysylltiad â latecs yn ystod eich triniaeth.

Rhagor o wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth am alergedd i latecs, gofynnwch i aelod o'ch tîm gofal iechyd.

Gall y sefydliadau canlynol hefyd roi rhagor o wybodaeth i chi:

Grŵp Cefnogi Alergedd i Latecs

www.lasg.co.uk

Llinell Gymorth: 07071 225838 – ar gael rhwng 7pm a 10pm

Y Gweithgor Iechyd a Diogelwch

www.hse.gov.uk/latex/pdf/patientinfosheet.pdf

Mae hysbysiad gwybodaeth diogelwch cleifion llawn ar gael ar wefan yr NPSA ar www.npsa.nhs.uk/advice

Am ragor o wybodaeth am yr NPSA, ewch i www.npsa.nhs.uk